



Swydd Ddisgrifiad: Cynorthwy-ydd Prosiect – Cymunedau Cerdd

Rydym yn dymuno penodi person trefnus iawn i gydweithio gyda'r Cydlynnydd Prosiect i gydgorio'r prosiect cyffrous, Cymunedau Cerdd ym Mangor a Chaernarfon.

Cefndir

Mae *Sistema Cymru - Codi'r To* yn brosiect adfywio cymunedol gyda'r nod o ddefnyddio cerddoriaeth fel ffordd o wella bywydau unigolion a chymunedau.

Wedi ei ysbrydoli gan y dull El Sistema, In Harmony a'r Big Noise fyd enwog, mae'r prosiect yn gweithio gyda dwy ysgol gynradd, Ysgol Glancegin, Bangor ac Ysgol Maesincla, Caernarfon a'u cymunedau lleol ac yn darparu yn bennaf profiadau cerddorol a thiwora offerynnol gyda grwpiau blwyddyn gyfan o blant.

Anelwn i'r cyfan fod yn ysbrydoledig a gwednewidiol i blant, teuluoedd, ysgolion a chymunedau. Trwy ymgysylltu cerddorol o safon, rydym yn ymdrin â phlant difreintiedig sydd wedi tangyflawni'n addysgiadol, gan geisio codi eu disgwyliadau a thrwy hynny wella cyfleoedd bywyd iddynt.

Mae tîm o diwtoriaid cerdd yn ymweld â'r ysgolion nifer o weithiau bob wythnos i arwain gweithgareddau offerynnol a chanu, gan weithio gyda'r athrawon i drwytho gweithgareddau cerdd rheolaidd i mewn i waith yr ysgol. Mae'r prosiect ar gael i bob plentyn mewn grŵp blwyddyn gan rhoi cyfle a phrofiad i bawb beth bynnag fo'u gallu cerddorol. Mi fydd prosiect Cymunedau Cerdd yn cynnal clybiau i blant, rhieni ac aelodau'r gymuned ar ôl ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Mi fydd prosiect Cymunedau Cerdd Codi'r To yn gwneud cysylltiadau â theuluoedd a'r gymdogaeth o amgylch yr ysgolion, gan gyflwyno cerddoriaeth fyw i mewn i gartrefi pobl ac i leoedd eraill yn y gymuned.

Swydd ar gael: Cynorthwy-ydd Prosiect
Lleoliad: Ardal Bangor a Chaernarfon. Swyddfa yn Noddfa, Caernarfon
Oriau: 15 awr yr wythnos
Cytundeb: 12 mis
Cyflog i'w drafod yn ddibynnol ar brofiad (rhwng £17,000 - £18,525 pro rata)

Ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV ynghyd ag enw dau unigolyn all gyflwyno geirda. Ceisiadau i gyrraedd erbyn 12:00 ganol dydd Gwener 1af o Hydref 2021 at carys@codirto.com

Carys Bowen
Cydlynnydd Sistema Cymru Codi'r To
Canolfan Noddfa
Cil Peblig
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2RS

01286 238200

Pwrpas y swydd:

Gweithio gyda'r Cydlynnydd i weinyddu a chydlynnu rhaglen Cymunedau Cerdd o ddydd i ddydd gan weithio gyda thiwtoriaid cerdd, ysgolion, disgyblion ysgol, y gymuned leol a darparwyr addysgiadol a chelfyddydol eraill. Mi fydd disgwyl i'r Cynorthwy-ydd drefnu a rhedeg clybiau cerdd ar ol ysgol, cadw cofrestrau, casglu adborth, trefnu cyngherddau a pherfformiadau cymunedol, annog gwirfoddolwyr a bod yn gyswllt rhwng Codi'r To a'r ddwy gymuned.

Yn atebol i:

Y Cydlynnydd

Ein anghenion:

Hanfodol

- Lefel uchel o allu mewn tasgau gweinyddol gan gynnwys prosesu geiriau safonol, taenlenni, Microsoft Publisher, rhaglenni a chronfeydd data.
- Y gallu i weithio'n gywir, i gynnal systemau effeithiol o gadw cofnodion ac i baratoi adroddiadau cywir a phrydlon.
- Y gallu i gadw cofrestrau disgyblion cywir ar gyfer clybiau ar ol ysgol a chlybiau haf.
- Y gallu i gyfathrebu'n ddyddiol yn ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg a Saesneg, a hynny'n lân ac yn gywir.
- Y gallu i gydweithio â thîm bychan o bobl.
- Y gallu i weithio'n annibynnol heb gyfarwyddyd cyson.
- Yn berson trefnus, awyddus, barod amdani, ond hefyd yn aelod da o dîm; yn fodlon gweithio'n hyblyg yn ôl y galw i gyflawni'r rhaglen.
- Cyfathrebwr gwych gyda phlant ifanc ac oedolion.
- Diddordeb mewn adfywio cymdeithasol a bod yn rhan o brosiect arbennig.
- Trwydded yrru a defnydd o gerbyd gydag yswiriant priodol.

Dymunol

- Profiad o weithio mewn ysgol neu leoliad addysgiadol arall ac/neu brofiad o weithio mewn sefydliad celfyddydol. Profiad o redeg clybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion.
- Profiad o gydlynnu a threfnu digwyddiadau, clybiau, cyngherddau.
- Profiad o gwblhau tasgau cysylltiadau cyhoeddus, ac/neu weithio mewn marchnata neu ddatblygu cynulleidfaoedd, creu posteri, cyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o weithio fel gwirfoddolwr, ac/neu reoli gwirfoddolwyr.

Cyn penodi:

- Rhaid cael gwybodaeth gan ganolwyr ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.
- Bydd angen Datganiad Manwl o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn hyn) cyn medru cadarnhau unrhyw benodiad.

Cyfnod prawf:

Bydd cyfnod prawf o 3 mis.

Cychwyn:

Hydref / Tachwedd 2021

